Y GRONFA GWADDOL IEUENCTID

Canllaw Darparu Ataliaeth â Ffocws

Crynodeb o argymhellion

PARATOI

1 **Penderfynu p'un ai a oes gennych broblem drais ddifrifol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ac a ellir mynd i'r afael â hi trwy ddarparu ataliad â ffocws.**

Pam?

Mae ataliad â ffocws yn defnyddio llawer o adnoddau, felly dylid ei ddefnyddio mewn meysydd lle mae trais difrifol yn amlwg ac yn barhaus. Cyn penderfynu gweithredu ataliad â ffocws, mae'n bwysig asesu i benderfynu os oes trais difrifol sylweddol.

2 **Cyn cyflwyno ataliaeth â ffocws, gwiriwch fod gennych yr adnoddau, y tîm a'r gefnogaeth angenrheidiol.**

Pam?

Mae ataliaeth â ffocws yn ymyrraeth gymhleth a heriol, ac mae adnoddau annigonol a diffyg cefnogaeth yn aml yn arwain at ddiffyg gweithredu.

3 **Sefydlu gweithgor aml-asiantaeth sy'n cydlynu rhwng yr heddlu, y gymuned a'r gwasanaethau cymorth.**

Pam?

Mae'r gweithgor yn hwyluso cydweithredu aml-asiantaeth effeithiol, sy'n hanfodol i sicrhau bod ataliad â ffocws yn llwyddo. Mae hefyd yn sicrhau'r capasiti angenrheidiol ar gyfer cynaliadwyedd a gweithredu effeithiol.

NODI

4 **Defnyddio data a gwybodaeth o ansawdd uchel i ddewis y bobl iawn i ganolbwyntio arnynt.**

Pam?

Mae trais difrifol yn aml yn cael ei yrru gan grŵp bach o unigolion. Mae'n hanfodol adnabod a thargedu'r bobl hyn gan ddefnyddio data aml-asiantaeth o ansawdd uchel a gwybodaeth gan y gymuned. Mae data dibynadwy'n golygu bod ataliad â ffocws yn fwy manwl-gywir, gan helpu i atal anghymesuredd a sicrhau ei fod yn deg ac yn canolbwyntio'n briodol ar y rhai sy'n gyrru trais.

GWEITHREDU

5 **Cynnwys teuluoedd, preswylwyr, arweinwyr a sefydliadau o'r gymuned leol wrth ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen.**

Pam?

Mae cynnwys cymunedau lleol yn gwella hygrededd a chyfreithlondeb ataliad â ffocws ac yn sicrhau bod y rhaglen yn cyd-fynd ag anghenion a gwerthoedd y gymuned. Mae hefyd yn hwyluso'r broses o ailintegreiddio unigolion i'w cymuned.

Y GRONFA GWADDOL IEUENCTID

GWEITHREDU

6 **Cyfathrebu'n glir ac yn gyson ag unigolion am y rhaglen, y gefnogaeth ar gael a chanlyniadau trais parhaus ac aildroseddu.**

Pam?

Mae cyfathrebu clir a chyson yn hanfodol. Mae'n sicrhau bod unigolion yn deall beth yw'r rhaglen, pam eu bod yn ymwneud â hi a chanlyniadau cyfreithiol a phersonol trais parhaus ac aildroseddu. Mae hefyd yn tynnu sylw at y gefnogaeth uniongyrchol sydd ar gael i'w helpu i roi'r gorau iddi.

7 **Paratoi canlyniadau uniongyrchol, penodol a chymesur ar gyfer trais parhaus ac aildroseddu, sy'n cael eu cydlynu gan yr heddlu.**

Pam?

Mae ataliad â ffocws yn dibynnu ar gynyddu ymwybyddiaeth unigolion o'r risgiau a'r sicrwydd y bydd yn arwain at ganlyniadau cyflym ar gyfer trais parhaus ac aildroseddu, gan sicrhau eu bod yn cysylltu eu gweithredoedd yn uniongyrchol â chanlyniadau y gellir eu rhagweld, ac y gellir eu gorfodi.

8 **Darparu nifer eang o opsiynau cymorth amserol a phriodol.**

Pam?

Mae cymorth ymatebol a phriodol yn hanfodol i fynd i'r afael ag achosion trais a helpu plant a phobl ifanc i roi'r gorau iddi ac i gadw'n ddiogel.

MONITRO

9 **Olrhain cynnydd unigolion a monitro'r modd y cyflawnir y rhaglen.**

Pam?

Mae monitro yn sicrhau bod y rhaglen yn delio'n effeithio â'r broblem drais ddifrifol leol ac yn fodd i sicrhau atebolrwydd, dysgu ac addasu'r rhaglen. Mae monitro hefyd yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â risgiau tegwch hiliol, gan helpu i nodi a lliniaru gwahaniaethau.